Thomas Charles o'r Bala, 1755–1814
Ysgolhaig, athro ac esboniwr

Ganed Thomas Charles yn Longmoor, plwyf Llanfihangel Abercywyn, Caerfyrddin, ar 14 Hydref 1755, yn fab i ffermwyr, sef Rees a Jael Charles a oedd yn gyffyrddus eu byd. Roedd ei fam yn ferch i David Bowen, Pibwr-lwyd, a fu'n siryf Caerfyrddin ym 1763. Anfonwyd ef i ysgol ym mhentref Llanddowror ac yno dysgodd wirioneddau'r ffydd wrth draed sant o'r enw Rhys Huw. Ystyriai Thomas Charles ef fel ei dad yn y ffydd. Pan oedd tua phedair ar ddeg oed fe aeth i Academi Caerfyrddin lle y bu am chwe blynedd yn cael ei addysgu gan y Parch. Jenkin Jenkins. Yn Ionawr 1773 aeth i Gapel Newydd i wrando ar Daniel Rowland, Llangeitho, yn pregethu a bu'r oedfa honno'n drobwynt yn ei hanes ac yn gam pwysig yn ei dröedigaeth. Tystiodd i'r digwyddiad yn ddiweddarach gan ddweud, 'O'r diwrnod cysurol hwnnw, cefais fath o nefoedd a daear newydd i'w mwynhau. Y cyfnewidiad a brofa dyn dall wrth dderbyn ei olwg, nid ydyw yn fwy na'r cyfnewidiad a brofais i y pryd hwnnw ar fy meddwl.'

Ym 1775 aeth i Goleg Iesu, Rhydychen, ac ennill gradd BA. Tra oedd yno gwnaeth lawer o ffrindiau â phobl o'r adain efengylaidd a ddaeth yn ddylanwadol yn Lloegr maes o law. Urddwyd ef yn ddiacon yn Rhydychen ym 1778, ac wedi gadael y brifysgol bu'n gurad yng Ngwlad yr Haf hyd 1783. Yn y flwyddyn honno priododd â Sally Jones, merch i David Jones, siopwr cefnog o'r Bala, a hynny yn eglwys Llanycil. Bu farw David Jones yn fuan ar ôl geni Sally ac ailbriododd ei mam â Thomas Foulkes y Methodist. Bu ef yn ddylanwad mawr ar y teulu.

Er i Thomas Charles gael ei benodi'n gurad yn Llanymawddwy ym 1784, nid oedd yn gymeradwy gan yr Anglicaniaid ac ni lwyddodd i gael bywoliaeth ganddynt. Ni allai gael swydd o fewn cyrraedd i'r Bala ac nid oedd ei wraig yn fodlon symud o'r dref na gadael y Methodistiaid. Yn wir, yn y diwedd penderfynodd Charles ymuno â seiat y Methodistiaid yn y Bala ym 1784. O hynny ymlaen hyd ddiwedd ei oes bu'n teithio'n ddiflino

i sasiynau, cyfarfodydd misol a chynulliadau'r Methodistiaid.

Wedi iddo ymuno â'r seiat fe sylweddolodd anwybodaeth ddybryd plant ac oedolion o'r Efengyl ac aeth ati i geisio diwallu'r angen. Penderfynodd gychwyn cyfundrefn o ysgolion cyffelyb i rai Gruffudd Jones, Llanddowror, gan gychwyn yn y Bala ym 1785. Yr ysgolion hyn oedd rhagflaenwyr yr ysgol Sul. Hyfforddodd athrawon a'u cyflogi am £10 y flwyddyn gan eu hanfon o ardal i ardal i ddysgu'r bobl i ddarllen y Beibl. Naw mis oedd yr hwyaf y byddent yn aros mewn unrhyw fan. Ymhen hir a hwyr gwelodd yr angen am ysgol a gynhelid ar y Sul, ac er bod gwrthwynebiad i hyn ar y cychwyn daeth yr ysgol Sul yn elfen allweddol o fywyd y Methodistiaid ac Ymneilltuaeth Gymreig. Ym 1785 pregethodd yng Nghymdeithasfa Llangeitho a dywedodd Daniel Rowland amdano, 'Rhodd yr Arglwydd i'r Gogledd yw Charles.' Ar gais y Gymdeithas er Gwella Cyflwr Cymdeithasol a Chrefyddol Iwerddon, bu ar daith drwy'r wlad honno ym 1807.

Rhoddodd gymorth i bobl yn yr Alban i sefydlu ysgolion. Yr oedd yn un o bleidwyr mwyaf selog Cymdeithas Genhadol Llundain a sefydlwyd ym 1795, yn un o sylfaenwyr Cymdeithas y Traethodau Crefyddol, ac yn un o brif sylfaenwyr Cymdeithas y Beibl ym 1805.

Bu hefyd yn gyhoeddwr prysur. Rhwng 1799 a 1802 ymddangosodd y gyfrol gyntaf o *Y Drysorfa Ysprydol* o dan ei olygiad ef a Thomas Jones, Dinbych. Sefydlodd wasg yn y Bala ym 1803, i argraffu llyfrau i'w ysgolion yn benodol. Erbyn ei farwolaeth yr oedd dros 320,000 o gyfrolau o'i weithiau wedi eu cyhoeddi. Ond prif waith ei fywyd oedd *Y Geiriadur Ysgrythurol* a oedd yn eithriadol o boblogaidd ac yn adlewyrchu ei wybodaeth eang. Bu farw ar 5 Hydref 1814 a'i gladdu ym mynwent Llanycil. Y mae cerflun ohono y tu allan i Gapel Tegid, y Bala.